# Cofnodion Wedi eu Cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | **Cyfarfod Bwrdd (Busnes)**<br><br>**Canolfan Gymunedol Tre-biwt, Caerdydd** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 29 Medi 2016 |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Diane McCrea (Cadeirydd)<br>Madeleine Havard (Dirprwy Gadeirydd) (Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru)<br>Emyr Roberts (Prif Weithredwr)<br>Karen Balmer<br>Nigel Reader (Cadeirydd Pwyllgor Perfformiad a Risg)<br>Elizabeth Haywood<br>Ruth Hall<br>Paul Williams (Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg)<br>Chris Blake<br>Howard Davies<br>Zoe Henderson |
| **Aelodau'r Tîm Gweithredol yn bresennol:** | Clive Thomas, Cyfarwyddwr, Llywodraethu<br>Tim Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth<br>Ashleigh Dunn, Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl<br>Catherine Smith, Cyfarwyddwr, Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu<br>Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol<br>Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru<br>Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu<br>Niall Reynolds, Cyfarwyddwr Portffolio Trawsnewid |
| **Mynychwyr Ychwanegol:** | Mike Evans, Pennaeth Tystiolaeth, Gwybodaeth a Chyngor<br>Kathryn Monk, Prif Gynghorydd Gwyddoniaeth<br>Rhian Jardine, Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy<br>Ruth Jenkins, Pennaeth Cynllunio Adnoddau Naturiol<br>Bob Vaughan, Rheolwr Rheolaeth Gynaliadwy o Ffermio, Tir a Choedwigoedd |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Geralene Mills<br>Leah Edge |

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

## Eitem 1. Busnes Safonol y Bwrdd

1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol i'r cyfarfod, yn ogystal â chydnabod sawl aelod o'r cyhoedd a oedd yn bresennol.

2. Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan aelod o'r bwrdd Andy Middleton, a oedd yn siarad ar ran CNC yng nghynhadledd Busnes Cymdeithasol Cymru yn Abertawe.

3. Nodwyd y gofynnwyd i Nigel Reader gadeirio Pwyllgor Archwilio'r Cydbwyllgor Gwarchod Natur fel aelod annibynnol; mae hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg yr Asiantaeth Anifeiliaid a Phlanhigion, yn amodol ar benodi cadeirydd parhaol.

4. Datganodd Howard Davies ei fod yn aelod o undeb Prospect ac yn gefnogwr y Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt Cymru.

## Eitem 2. Cofnodion a Materion sy'n codi, Pwyllgorau, Cofnodion a Materion sy'n codi

5. Hysbysodd Madeleine Havard y Bwrdd am farwolaeth drist Ian Mercer, a oedd yn Swyddog Parc Cenedlaethol Dartmoor cyn dod yn Brif Weithredwr cyntaf Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Cydnabuwyd fod Ian wedi bod yn allweddol yn nifer o ddatblygiadau, gan gynnwys y gwaith arloesol ar gynlluniau amaeth-amgylchedd. Roedd y Bwrdd am gofnodi ei werthfawrogiad o holl waith Ian dros Gymru.

6. Trafodwyd materion yn ymwneud â'r ardal leol a nodwyd y canlynol:

- Roedd ymchwiliad cyhoeddus ar fin dechrau ar ffordd liniaru'r M4. Roedd CNC wedi gwrthwynebu'r cynnig ar sawl sail amgylcheddol ac roedd yn paratoi ei dystiolaeth ar gyfer cyfrannu at yr ymchwiliad. Ers hynny, clywsom fod yr ymchwiliad cyhoeddus wedi cael ei ohirio. Rydym wedi cwblhau ein tystiolaeth a byddwn yn ailgyflogi cymorth cyfreithiol allanol os cawn ein galw i'r ymchwiliad cyhoeddus.
- Gorsaf bŵer Aberddawan – mae dyfarniad diweddar gan yr UE mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol yn ei gwneud yn ofynnol bod yr orsaf bŵer yn cydymffurfio â chyfyngiadau newydd ar gyfer allyriadau. Bydd Llywodraeth Cymru'n arwain y gwaith o weithredu'r dyfarniad a bydd angen i CNC weithio gyda'r busnes i amrywio'r drwydded.
- Cafwyd diweddariad ar y tân diweddar yn y gwaith ailgylchu pren, South Wales Wood Recycling, yn Heol Lan, Coety. Roedd hwn wedi bod yn dân sylweddol a barodd am wythnos ac nid dyma'r cyntaf i'r cwmni hwn yn ystod y misoedd diweddar. Mae'r timau ardal lleol yn gweithio gyda'r busnes ac

mae CNC hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol i ystyried sut i reoli'r mater hwn ar draws de Cymru.

- Mae penderfyniad i fod i gael ei wneud ynglŷn â'r cais am drwydded ar gyfer cyfleuster gwastraff yng Nghwmfelin-fach yng Nghwm Sirhywi yn yr wythnosau i ddod.
- Trafodwyd cynllun i wella tynnu dŵr ar Gored y Parc Gwyrdd ar Afon Afan ym Mhort Talbot a nodwyd bod hon yn bartneriaeth ardderchog rhwng Tata, Dŵr Cymru Welsh Water, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot a ninnau. Mae wedi bod ar y gweill ers blynyddoedd a bydd yn gynllun a fydd o fudd mawr i fywyd gwyllt, cynefinoedd a physgodfeydd yn ogystal â thynnu dŵr yn well i fusnesau.
- Tynnwyd sylw'r Bwrdd at y prosiect 'Grangetown Werddach' a chafwyd cyfle i gyfarfod ag Arweinydd Tîm Uwch Gynghorydd Coetir Glastir, Martyn Evans, a oedd wedi bod yn rhan o'r prosiect hwn, ar ddiwedd y cyfarfod i adolygu cynigion a buddiannau'r cynllun.
- Hysbyswyd y Bwrdd gan Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru bod cyhoeddiad newydd ei wneud bod CNC ar restr fer Gwobrau Cynaliadwyedd Cymru am y prosiect 'Llethrau Iach', a oedd yn rhan o waith Rheoli Adnoddau Naturiol Ardal Treial y Rhondda.

## Cadarnhau'r Cofnodion

7. Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf yn ffurfiol gydag un diwygiad, i ddileu cam gweithredu ar ôl paragraff 16 gan ei fod yn ddyblygiad o'r cam gweithredu ym mharagraff 14.

## Cofnod o Gamau Gweithredu

8. Nodwyd yr ymdriniwyd ag eitemau 1, 2, 3, 3, 5 a 6.

9. Darparwyd diweddariad ar gyfer eitem 4 a chytunwyd y dylid symud unrhyw ddiweddariadau pellach i dempled papur y Bwrdd ymlaen fel rhan o'r broses cynllunio corfforaethol.

10. O ran eitem 6, cytunwyd y dylid ailgyfeirio cynigion am is-grŵp o'r Bwrdd i oruchwylio a chraffu ar y rhaglen Prosiectau Cyfalaf Perygl Llifogydd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr.

***CAM GWEITHREDU – Ysgrifenyddiaeth i nodi Rhagolwg. Papur i gael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr mewn perthynas â chraffu a sicrwydd ar gyfer y rhaglen Prosiect Cyfalaf Perygl Llifogydd. Is-grŵp i gael ei drefnu ac aelodaeth i gael ei chytuno ond yn cynnwys Madeleine Havard, Jeremy Parr a Ceri Davies.***

11. Eitem 7, Papur Datganiad ar Sefyllfa Cadwraeth Trawsleoliad – mae'r sefyllfa'n derfynol yn awr a chaiff ei ddosbarthu i'r Bwrdd ynghyd â chyhoeddiadau mewnol ac allanol.

## Pwyllgor Pobl a Thaliadau, 22 Medi 2016

12. Cafwyd diweddariad gan Gadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau yn dilyn y cyfarfod ar 22 Medi. Roedd y cofnodion wrthi'n cael eu paratoi a byddent yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr i'w cadarnhau. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor y materion canlynol:

- Roedd y Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu wedi diweddaru'r pwyllgor ar y rhaglen Gofal Cwsmeriaid. Nododd y Bwrdd fod y pwyllgor wedi craffu ar ddatblygiad y rhaglen Gofal Cwsmeriaid ar sail reolaidd, gyda ffocws ar ymgorffori gofynion ledled y sefydliad.
- Roedd y pwyllgor wedi craffu ar gyflwyniad o'r broses gwerthuso swyddi a modelu cyflogau ac wedi ei chymeradwyo i'r Bwrdd ei ystyried a'i chymeradwyo.
- Adolygodd a chymeradwyodd y pwyllgor Bolisi Adleoli a Diswyddo CNC a chymeradwyo ei gyflwyno i'r Bwrdd i gael ei gymeradwyo.
- Cynllun Gadael Gwirfoddol – derbyniwyd a nodwyd y diweddariad.
- Nid oedd yr Is-grŵp Pensiynau wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.

### - Polisi Adleoli a Diswyddo CNC (NRW B B 51.16)

13. Cyflwynwyd y Polisi i'r Bwrdd gan Gyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl, a nododd y gymeradwyaeth a dderbyniwyd gan y Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Perfformiad a Risg. Mae'r polisi'n ddatblygiad pwysig i CNC sydd wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â'r undebau llafur, gyda chymorth gan gynghorwyr cyfreithiol.

14. Nododd y Bwrdd y gwaith craffu a oedd wedi digwydd, a chymeradwyodd y polisi i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru.

### - Diweddariad Polisi Llywodraeth Cymru (NRW B B 52.16)

15. Nodwyd gan y Bwrdd.

### - Gwerthuso Swyddi a Modelu Cyflogau (NRW 61.16)

16. Ymunodd Steve Burton, Pennaeth Gwasanaethau Pobl, â'r cyfarfod. Nododd y Bwrdd y gwaith craffu ar y broses a wnaed gan y Pwyllgor Perfformiad a Risg a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o ran gwerthuso swyddi. Mae'r broses wedi cael ei datblygu ar y cyd â chynrychiolwyr yr undebau llafur. Mae'r adran fusnes wedi bod yn rhan o'r broses

ddatblygu, gan ychwanegu uniondeb i'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer datblygu Teuluoedd Gwaith a Phroffiliau Rôl, sydd wedi cael eu hadolygu gan banelau annibynnol.

17. Nododd y Bwrdd y gwaith craffu a wnaed ar y dyluniad a chymeradwyo'r cynllun.

## Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

18. Cafwyd diweddariad gan Gadeirydd y pwyllgor o gyfarfod 22 Medi, yn nodi y caiff y cofnodion eu cyflwyno i'w cadarnhau gan y Bwrdd yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr. Roedd holl aelodau pwyllgor y Bwrdd wedi mynychu'r cyfarfod gyda dau arsyllwr gwadd, Carys Clarke, Llywodraeth Cymru, ac Arwel Thomas, Aelod Unigol o Bwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg Estyn a Chyngor Celfyddydau Cymru.

19. Nododd y pwyllgor yr oedi cyn cwblhau'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, a bod Swyddfa Archwilio Cymru'n parhau i adolygu yn dilyn ymholiad gan drydydd parti.

20. Derbyniodd y pwyllgor adroddiad o gynnydd gan y tîm archwilio mewnol a nododd y cynllun i fynd ar ôl unrhyw gamau na weithredwyd arnynt gan reolwyr o archwiliadau a gwblhawyd hyd yn hyn.

21. Cymeradwyodd y pwyllgor gynnig diwygiedig ar gyfer ymgorffori Archwaeth Risg mewn prosesau sefydliadol, a gytunwyd wedyn gan y Bwrdd yn y cyfarfod datblygu ar 28 Medi.

22. Nododd y Bwrdd gymeradwyaeth y pwyllgor o'r Model Aeddfedrwydd Ariannol a'r diweddariad ar golledion twyll a Thaliadau Arbennig.

23. Nododd y Bwrdd y bydd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cynrychioli CNC yn y sesiwn graffu flynyddol gan Bwyllgor Newid Hinsawdd ac Ynni Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Tachwedd.

## Adolygiad o Bolisi Treuliau Aelodau Bwrdd (NRW B B 53.16)

24. Cafwyd diweddariad gan y Cadeirydd ar yr adolygiad o hawliadau treuliau aelodau'r Bwrdd ac ni nodwyd unrhyw broblemau anghywirdeb. Cadarnhawyd y byddai treuliau aelodau'r Bwrdd yn parhau i gael eu hadolygu'n flynyddol gan yr Ysgrifenyddiaeth ar y cyd â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Cafodd aelodau'r Bwrdd eu hatgoffa o'r angen i gyflwyno hawliadau treuliau yn brydlon, yn unol â'r Polisi Treuliau. Cytunodd y Bwrdd y byddai pob hawliad treuliau dros dri mis yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Gadeirydd CNC.

## Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru

25. Cadarnhaodd Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru fod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar greu'r pwyllgor newydd dan Ddeddf yr Amgylchedd yn parhau ac anogwyd aelodau'r Bwrdd i ddarparu adborth.  Cytunodd y Bwrdd i gadw'r eitem safonol ar yr agenda ar gyfer y pwyllgor nes bydd y trefniadau newydd ar waith.

***CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddiaeth i ddarparu dolen ar gyfer ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyfer aelodau'r Bwrdd.***

## Y Cydbwyllgor Gwarchod Natur

26. Nodwyd fod Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd wedi mynychu cyfarfod y Cydbwyllgor Gwarchod Natur yn Peterborough yn ddiweddar ac wedi ymgymryd â phroses ymsefydlu drwyadl mewn perthynas â gwaith y Cydbwyllgor ar ran LlC a CNC.

## Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig

27. Nododd y Bwrdd fod y pwyllgor i fod i gyfarfod nesaf ar 15 Tachwedd 2016.

## Eitem 3. Adroddiad Cyllid – Blwyddyn Ariannol 2016/17 (NRW B B 54.16)

28. Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad i'r Bwrdd gan nodi'r sefyllfa gadarnhaol ar ddiwedd Cyfnod 5.  Ar hyn o bryd, mae CNC 5% o dan broffil y gyllideb, y gellir ei briodoli i'r ffaith bod gwario y tu ôl i'r proffil a bod incwm o gynaeafu coed o flaen y proffil.  Yn ystod Cyfnod 6, bydd ymarfer ail-ragweld yn cael ei gynnal i adolygu cyllidebau, a cheir diweddariad yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Disgwylir y caiff cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 ei chyhoeddi ar 18 Hydref.

29. Nododd y Bwrdd y trefniadau llywodraethu ariannol a oedd ar waith ar gyfer Cynllun Llifogydd Pontarddulais, lle mae'r rhagolwg cyllideb wedi mynd dros yr uchafswm o £5 miliwn dirprwyedig ac mae angen cymeradwyaeth y Bwrdd i fynd ymlaen. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng swyddogion a Madeleine Havard, Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru, a Nigel Reader, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, i graffu ar y cynigion. Yn dilyn trafodaeth, cymeradwywyd y cynigion gan y ddau aelod Bwrdd ar ran y Bwrdd. Cymeradwyodd y Bwrdd ddull gweithredu'r Prif Weithredwr wrth geisio cymeradwyaeth ar gyfer y gyllideb uwch.

30. Nododd y Bwrdd hefyd y gwaith craffu parhaus gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar reolaeth ariannol a nodwyd fod y papur wedi cael ei gyflwyno.

## Eitem 4. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16 (NRW B 55.16)

31. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Bwrdd nodi fersiwn derfynol yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16, a gafodd eu cymeradwyo a'u llofnodi gan y Swyddog Cyfrifyddu ym mis Awst. Nododd y Bwrdd nad oedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi llofnodi'r Cyfrifon eto yn amodol ar graffu pellach gan Swyddfa Archwilio Cymru ar fater a godwyd gan drydydd parti. Darperir diweddariad yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Rhagfyr.

32. Cafodd y Bwrdd sicrwydd fod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi craffu ar ddatblygiad a chyflwyniad yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu fod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi adolygu'r trefniadau ac wedi dwyn cynigion ymlaen ar gyfer datblygiad yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2016/17, a fydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i'r Bwrdd gyfrannu a gwneud sylwadau.

33. Nododd a chymeradwyodd y Bwrdd y trefniadau diwygiedig.

***CAM GWEITHREDU – Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol i roi diweddariad i'r Bwrdd ar ddatblygiad yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16. Yr Ysgrifenyddiaeth i nodi ar gyfer y Rhagolwg.***

## Eitem 5. Adroddiad Perfformiad y Dangosfwrdd Corfforaethol – Cyfnod 1 (Ebrill – Gorffennaf) (NRW B B 56.16)

34. Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur a rhoddodd drosolwg o lwyddiannau a pherfformiad ar gyfer Cyfnod 1. Nododd y Bwrdd statws perfformiad pob dangosydd Dangosfwrdd a chafwyd manylion pellach mewn perthynas â'r thema 'Da ar gyfer' berthnasol gan y Cyfarwyddwr Gweithredol arwain.

35. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu fod CNC yn parhau i weithio gyda Chyllid y Wlad ar gynigion i gasglu treth tirlenwi ar gyfer 2018, ac y byddai amserlen wedi ei diweddaru ar gael ar gyfer y Bwrdd yn fuan.

36. Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd fod pryder parhaus ynghylch cyflwr bioamrywiaeth Cymru ond ei bod yn hanfodol cofio bod angen ymdrech gydweithredol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Cytunwyd, wrth i CNC ddatblygu ei Gynllun Corfforaethol nesaf, y dylid cadw cydbwysedd wrth reoli perfformiad rhwng yr uchelgais ar gyfer Cymru a chyfraniad posibl CNC.

37. Ceisiodd y Cadeirydd gael esboniad am ymgysylltiad â staff a pha gynnydd oedd y tîm yn ei wneud wrth ymgorffori Strategaeth Pobl a Thimau yng ngwaith CNC. Nodwyd y byddai'r eitem hon ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod Bwrdd ym mis Rhagfyr.

***CAM GWEITHREDU – Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl, i roi diweddariad ar weithrediad y Strategaeth Pobl a Thimau i'r cyfarfod Bwrdd ym mis Rhagfyr.***

38. Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â staff heb amcanion cytûn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl, fod hyn yn debygol o fod yn broblem cofnodi o fewn MyNRW ac y byddai'n cael sylw yn ystod y cyfnod presennol o adolygiadau canol blwyddyn.

39. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y cyflwyniad wedi caniatáu i'r Bwrdd graffu ar berfformiad a llywodraethu'r sefydliad a nodwyd sefyllfa Cyfnod 1.

## Eitem 6. Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) – Cymeradwyaeth Derfynol (NRW B B 58.16)

40. Ymunodd Mike Evans, Pennaeth Tystiolaeth, Gwybodaeth a Chyngor, â'r cyfarfod a rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â lansiad yr adroddiad.

41. Roedd yr adroddiad, ynghyd â dogfen grynhoi, wedi cael cymeradwyaeth a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan CNC, i gyd-fynd â'r lansiad ffurfiol gan Ysgrifennydd y Cabinet ar ddydd Llun 3 Hydref.

42. Ochr yn ochr â'r lansiad ffurfiol, bydd CNC yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i lywio datblygiad y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol. Er mwyn cadw'r adroddiad yn fyw ac yn gyfredol, bydd CNC yn ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid er mwyn pwysleisio ei berthnasedd a'i bwysigrwydd ac i gefnogi ei ddatblygiad yn y dyfodol, gan gynnwys astudiaethau achos. Gofynnodd y Bwrdd i'r gweithgarwch hwn gael ei fonitro.

***CAM GWEITHREDU – Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu i roi adroddiad diweddaru i'r Bwrdd yn dangos sut mae'r adroddiad yn cael ei ddefnyddio. Yr Ysgrifenyddiaeth i nodi'r Rhagolwg.***

43. Hoffai'r Bwrdd a'r Cadeirydd fynegi eu diolch i'r timau a oedd wedi datblygu'r adroddiad, y cytunwyd oedd yn garreg filltir arwyddocaol i CNC a Chymru.

## Eitem 7. Dull y Dyfodol ar gyfer Cyllido Rheoli Adnoddau Naturiol (NRW B B 58.16)

44. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Rhian Jardine, Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy, i'r cyfarfod. Esboniodd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu fod y trefniadau cyllid presennol i fod i ddod i ben yn 2018 ac roedd y papur yn cyflwyno'r cynigion ar gyfer datblygu'r cynllun nesaf i redeg o 2018.

45. Adroddodd y Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy fod CNC wedi adolygu perfformiad y cynlluniau presennol, a oedd yn dylanwadu ar y cynigion strategol i symud tuag at fodel comisiynu, wedi ei lywio gan gydweithredu.

46. Cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig i symud at ddull gweithredu sy'n seiliedig ar gomisiynu, a fydd yn cyd-fynd â datblygu datganiadau ardal. Dylai hyn sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu canfod sy'n caniatáu'r gwaith o ddatblygu trefniadau i gyflawni canlyniadau amgylcheddol sy'n adlewyrchu cyd-destun yr ardal.

47. Nododd y Bwrdd bwysigrwydd cydweithredu a gwaith partner a chytunwyd y dylid trefnu grŵp gorchwyl a gorffen i roi cymorth i gwblhau'r trefniadau, ochr yn ochr â'r craffu parhaus gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

***CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i gwblhau'r trefniadau ar gyfer y cynllun grant newydd.***

## Eitem 8. Dulliau amgen i Cypermethrin (NRW B B 59.16)

48. Ymunodd Bob Vaughan, Rheolwr Rheolaeth Gynaliadwy o Ffermio, Tir a Choedwigoedd, â'r cyfarfod. Roedd y papur yn tynnu sylw at y broblem o reoli'r ystâd goedwig wrth ddefnyddio plaladdwyr, cynnydd hyd yn hyn, a dulliau amgen. Trafododd y Bwrdd pa mor effeithiol oedd dewisiadau amgen a'r arweiniad gan CNC yn y maes hwn. Awgrymodd aelod o'r Bwrdd y gellid defnyddio 'coeden benderfynu' i helpu staff gweithredol i wneud penderfyniadau ynglŷn â'r dulliau amgen, a chafodd hyn gefnogaeth gan y Bwrdd.

49. Nododd y Bwrdd y datblygiadau a chymeradwyo'r cynigion a nodwyd yn y papur a chytunwyd y byddai coeden benderfynu yn ddatblygiad defnyddiol.

## Eitem 9. Cynllun Strategol CNC ar gyfer Ymgysylltu â'r Sector Academaidd (NRW B B 60.16)

50. Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur i'r Bwrdd ynghyd â Katherine Monk, y Prif Gynghorydd Gwyddoniaeth.

51. Mynegodd y Prif Weithredwr ei gefnogaeth bersonol i ddatblygiad y cynllun ymgysylltu a swyddogaeth CNC yn symud y gwaith o gydweithio ar dystiolaeth ac ymchwil gyda phrifysgolion a'r gymuned ymchwil yng Nghymru yn ei flaen. Cafodd y cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol eu hamlygu, gan helpu i hyrwyddo partneriaethau pellach rhwng CNC a'r sector academaidd.

52. Gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried cyfleoedd pellach i hyrwyddo'r cynllun ymgysylltu, gan rannu cysylltiadau rhanddeiliaid gyda CNC ble y bo'n bosibl.

53. Adroddodd y Prif Swyddog Gweithredol y byddai agor y labordy ar safle Parc Singleton, Prifysgol Abertawe, yn helpu i gadarnhau'r bartneriaeth â'r sefydliad hwn ymhellach ac y gellid gwahodd uwch-gynrychiolwyr i drafod cyfleoedd pellach ar gyfer cydweithredu gyda'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf.

54. Croesawodd y Bwrdd y cynllun ymgysylltu'n ffurfiol a datgan cefnogaeth iddo, i weithredu fel cymhorthydd cof cefnogol, fel y'i cyflwynwyd.

## Eitem 10. Adroddiad y Cadeirydd

55. Nododd y Bwrdd adroddiad ysgrifenedig o waith ymgysylltu allanol y Cadeirydd a phresenoldeb y Cadeirydd mewn cyfarfodydd rheolaidd ag Ysgrifennydd y Cabinet a Llywodraeth Cymru.

56. Cafodd cynllun Plant! ei drafod a gofynnodd yr aelodau Bwrdd am fanylion pellach am y prosiect hwn.

***CAM GWEITHREDU –Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu i ddosbarthu briff diweddaru i'r Bwrdd ar y cynllun Plant!***

57. Nododd y Cadeirydd y dylid trefnu cyfarfod pellach â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn adolygu datblygiad amcanion llesiant CNC yn seiliedig ar y gwaith diweddar a chysylltu ar lefel swyddogol.

## Eitem 11. Adroddiad y Prif Weithredwr (NRW B B 61.16)

58. Nododd y Bwrdd lansiad rhaglen ddatblygu Rheolaeth ac Arweinyddiaeth CNC, Tyfu, a chroesawu'r cyfleoedd i ddatblygu capasiti rheoli yn y sefydliad.

59. Nododd y Bwrdd swyddogaeth CNC mewn trafodaethau Brexit ledled y DU, gan gynnwys presenoldeb y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr mewn digwyddiad o amgylch y bwrdd diweddar gydag Ysgrifennydd y Cabinet.

## Adroddiad Diweddaru Llesiant, Iechyd a Diogelwch (NRW B B 62.16)

60. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl yr adroddiad i'r Bwrdd gan dynnu sylw at ddigwyddiadau Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus, adrodd am ddigwyddiadau a gafodd eu hosgoi o drwch blewyn, a llesiant iechyd meddwl.  Hysbyswyd y Bwrdd hefyd fod y cynllun budd-dal i gyflogeion a lansiwyd yn ddiweddar wedi cael derbyniad da ledled y sefydliad.

61. Nododd y Bwrdd y dyfarniad mewn ymchwiliad diweddar gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i farwolaeth contractwr CNC o farwolaeth trwy ddamwain, ac unwaith eto mynegodd gydymdeimlad â theulu'r contractwr. Byddai CNC yn adolygu cyfleoedd i ddysgu o'r adroddiad hwn.

62. Amlygodd y Bwrdd bryderon ynglŷn â'r digwyddiad beicio mynydd yng Nghwmcarn, lle'r aeth beiciwr i mewn i safle cynaeafu gweithredol. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De fod adolygiad o'r digwyddiad yn parhau ac y byddai'r Bwrdd yn derbyn briff llawn pan fyddai'r adolygiad wedi gorffen.

***CAM GWEITHREDU – Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De i ddosbarthu briff i'r Bwrdd pan fydd yr adolygiad wedi gorffen***

## 13. Unrhyw Faterion Eraill

63. Nodwyd fod cyfarfod nesaf y Bwrdd i'w gynnal yn gyhoeddus yn Abertawe ar 8 Rhagfyr 2016.

64. Cafwyd diweddariad gan Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Gogledd a Chanolbarth Cymru ar y cytundeb â'r Gymdeithas Chwaraeon Moduron ar gyfer 2016/17 ynglŷn â ralio ar yr ystad goedwig.

65. Yn olaf, nododd y Cadeirydd ymadawiad agos 99 aelod o staff, dan y Cynllun Gadael Gwirfoddol cyfredol, ac estynnodd ddiolch i bob un ohonynt yn ffurfiol am eu cyfraniadau i CNC a chyrff etifeddol. Yn y cyd-destun hwn, cydnabuwyd mai hwn oedd y cyfarfod Bwrdd olaf i Clive Thomas, Cyfarwyddwr Llywodraethu. Mynegodd y Cadeirydd ddiolch i Clive ar ran y Bwrdd am ei waith caled a'r cyfraniad yr oedd wedi ei wneud i CNC ers sefydlu'r corff.

## Gorffen y Cyfarfod

66. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben trwy ddiolch i'r Tîm Gweithredol, yr Ysgrifenyddiaeth ac eraill ynghlwm â'r trefniadau ar gyfer cyfarfod y Bwrdd.

## Cwestiynau Cyhoeddus

67. Ar ôl cau cyfarfod y Bwrdd yn ffurfiol, gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol. Cadarnhaodd nifer o'r rhai oedd yn bresennol pa mor ddefnyddiol fu mynychu'r cyfarfod a gofynnwyd sawl cwestiwn penodol. Mae'r cwestiynau hyn, ynghyd â'r atebion, i'w gweld yn Atodiad 1.

## Atodiad 1 – Cwestiynau Cyhoeddus:

1. *Rachel Evans, Cyfarwyddwr Cynghrair Cefn Gwlad – Rydym yn ymwybodol o bwysau mewn perthynas â saethwyr hamdden ar dir cyhoeddus. Rydym yn awyddus iawn i siarad ag aelodau'r Bwrdd a chwalu rhai o'r mythau a gweld sut mae'r adolygiad saethu'n dod yn ei flaen. Hoffwn roi gwybod i'r Bwrdd fod y drws ar agor i ymgysylltu â'n haelodau.*

Cadeirydd: Mae CNC wedi sefydlu is-grŵp dan y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu i ddatblygu cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp hwn, gyda chyfraniad gan aelodau'r Bwrdd ac ymgysylltiad ehangach.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu fod CNC wrthi'n cwblhau'r cynllun ac yn terfynu amserlen ar gyfer yr adolygiad. Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o gyfleoedd i ymgysylltu, gan gynnwys galwad ffurfiol am dystiolaeth (y gall rhanddeiliaid a'r cyhoedd ymateb iddi), gan fod CNC yn ymroddedig i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.

Cadeirydd: Yna bydd CNC yn adolygu ac ystyried unrhyw argymhellion, a ddilynir gan gyfle i wneud sylwadau.

2. *Martin Bishop: Cydffederasiwn y Diwydiannau Coed – Hoffwn ofyn i CNC ymgysylltu â'r sector ehangach am iechyd planhigion ac nid am Cypermethrin yn unig. O ran Cypermethrin, rwy'n credu y gallai dull coeden benderfynu helpu a dylid cydnabod cyn lleied o'r plaladdwr sy'n cael ei ddefnyddio gan goedwigaeth o'i gymharu â defnydd amaethyddol ohono. Hefyd mae angen i CNC a'r sector sicrhau ein bod yn deall canlyniadau'r hyn a wnawn, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol.*
   Cadeirydd: Nodwyd, a diolch am y cyfraniad.

3. *Jeff Griffiths: O ran hamdden – siaradwch â phobl hŷn a allant ddweud wrthych ble mae tir llygredig, gwnewch sylwadau ar y papur gan y llywodraeth ynghylch yr hyn y bydd yn ei wneud â'r arian gan nwy siâl.*

Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu: Testun ymgynghoriad Llywodraeth y DU [gwirio] yw sut mae cymunedau'n cael budd o'r elw o nwy siâl a bydd CNC yn edrych ar hyn.